O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif (Cy. )

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid ac Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth ym maes iechyd anifeiliaid. Maent yn diwygio deddfwriaeth ddomestig sy'n gwneud darpariaeth i orfodi—

(a) Rheoliad Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (EC) Rhif 999/2001 sy'n gosod rheolau ar gyfer atal, rheoli a dileu enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy penodol,

(b) Rheoliad Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (EC) Rhif 1069/2009 sy'n gosod rheolau iechyd ynglŷn â sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynyhyrchion sy'n dod o anifeiliaid na fwriedir i bobl eu bwyta, ac

(c) Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn

perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif (Cy. )

# YMADAEL Â’R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid ac Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2019

*Gofynion sifftio wedi eu bodloni* ***

*Gwnaed* ***

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* ***

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae gofynion paragraff 4(2) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (sy’n ymwneud â gweithdrefn graffu briodol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Rheoliadau hyn) wedi eu bodloni.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw’r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid ac Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2019.

(**1**) 2018 p. 16.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014**

**2.** Yn Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014(**1**), hepgorer rheoliad 10(6).

**Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2018**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2018(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2, hepgorer paragraffau 5(2)(c) a 5(2)(d).

(3) Yn Atodlen 6—

(a) ym mharagraff 9(6), hepgorer "o drydedd wlad";

(b) ym mharagraff 12(4), hepgorer "o drydedd wlad";

(c) ym mharagraff 13(3), hepgorer "o drydedd wlad";

(d) ym mharagraff 15—

(i) yn y pennawd, hepgorer "i drydydd gwledydd";

(ii) yn is-baragraff (1), yn lle "i drydedd wlad brotein" rhodder "protein";

(iii) yn is-baragraff (2), yn lle "i drydedd wlad gynhyrchion" rhodder "cynhyrchion";

(iv) yn is-baragraff (3), yn lle "i drydedd wlad brotein" rhodder "protein".

(4) Yn Atodlen 7—

(a) ym mharagraff 1, hepgorer "a osodir ar yr Aelod-wladwriaeth";

(b) ym mharagraff 8(3)—

(i) ar ddiwedd paragraff (a), mewnosoder "neu";

(ii) ar ddiwedd paragraff (b), yn lle "; neu" rhodder ".";

(iii) hepgorer paragraff (c).

(c) ym mharagraff (9)(3)(b)—

(i) ar ddiwedd is-baragraff (i), mewnosoder "neu";

(**1**) O.S. 2014/517 (Cy. 60)
(**2**) O.S. 2018/968 (Cy. 195)

(ii) ar ddiwedd is-baragraff (ii), yn lle "; neu" rhodder ".";

(iii) hepgorer is-baragraff (iii);

(d) ym mharagraff 15, hepgorer "At ddibenion pwynt 10.1 a phwynt 10.2 o Atodiad V,".

(5) Yn Atodlen 8—

(a) ym mharagraff 1, yn y pennawd ac yn is-baragraff (1), hepgorer "i drydydd gwledydd";

(b) ym mharagraff 2, yn y pennawd ac yn is-baragraff (1), hepgorer "i drydydd gwledydd".

*Enw*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad